

POLISI RHEOLI DIOGELWCH DŴR (Legionella)

| Dyddiad | Pwrpas y Cyhoeddiad / Disgrifiad o'r Newid | Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi ei Gwblhau |
|------------------|---|---|
| 2003 | Cyhoeddiad Cyntaf | |
| 27 Chwefror 2020 | Adolygwyd a chymeradwywyd gan y Grŵp Tasg Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau | Ionawr 2020 |

| Swyddog Polisi | Uwch Swyddog sy'n Gyfrifol | Cymeradwywyd gan | Dyddiad |
|-----------------------------|-----------------------------------|-----------------------------|----------------|
| Pennaeth Iechyd a Diogelwch | Ysgrifennydd y Brifysgol | Pwyllgor Iechyd a Diogelwch | 2003 |

Caiff y polisi hwn ei adolygu nesaf yn 2023

1. RHAGARWEINIAD A DIBEN

Mae dau brif bwrpas i'r polisi, sef cadarnhau trefniadau i reoli legionella a sefydlu gofynion ar gyfer darparu dŵr yfed.

Mae clefyd y llengfilwyr yn fath o niwmonia a all fod yn angheuol. Mae'r clefyd yn cael ei achosi gan y bacteriwm *Legionella pneumophila* (a bacteria cysylltiedig) a gall effeithio ar unrhyw un, ond yn bennaf y rhai sy'n agored i ddioddef oherwydd oedran, salwch, ataliad imiwneidd, ysmegu, etc. Mae symptomau dechreuol y clefyd yn cynnwys gwres uchel, teimlo'n oer, poen yn y pen a'r cyhyrau. Ar gyfartaledd mae 200 - 250 o achosion o glefyd y Llangfilwyr yn cael eu cofnodi bob blwyddyn yn y Deyrnas Unedig, gyda thua 12% o'r achosion hyn yn angheuol.

Mae'r bacteria legionella yn ffynnu ar dymheredd rhwng 20-45 ° C a phan fo'r amodau'n iawn; er enghraifft, os oes cyflenwad o faetholion fel rhwd, llaid, cen, algâu a bacteria eraill yn bresennol.

Er bod y bacteria yn gyffredin yn yr amgylchedd, mae'r salwch fel rheol yn cael ei ddal trwy anadlu dŵr halogedig ar ffurf defnyddiau bach (aerosolau) neu mewn cnewyllyn defnydd halogedig (y gronynnau a adewir ar ôl i'r dŵr anweddu) sy'n ysgafn iawn ac yn gallu aros yn yr awyr am beth amser. Nid yw lledaeniad y clefyd o berson i berson wedi'i gofnodi.

Mae darparu dŵr yfed yn y gweithle hefyd yn un o ofynion sylfaenol deddfwriaeth ac yn ddisgwyliad elfennol gan fyfyrwyr a staff, gan gefnogi lles personol a chynaliadwyedd adnoddau trwy leihau'r angen am ddŵr potel.

2. DATGANIAD POLISI

Polisi Prifysgol Bangor, cyn belled ag y bo'n ymarferol bosib, ac yn unol â'r gofynion statudol perthnasol ac arferion da, yw sicrhau iechyd a diogelwch y staff, y myfyrwyr ac ymwelwyr i'r brifysgol.

Mae'r polisi hwn yn nodi'r gofynion a osodir ar y brifysgol a'r colegau a'r gwasanaethau proffesiynol o ran rheoli systemau dŵr ac aerdymheru i atal dod i gysylltiad â chlefyd y Llangfilwyr.

Mae'r polisi hefyd yn cadarnhau'r gofyniad i ddarparu dŵr yfed mewn adeiladau a ddefnyddir.

Mae'r polisi'n berthnasol i'r canlynol:

- Yr holl gyflenwadau dŵr yn adeiladau'r brifysgol a'r holl offer sy'n gysylltiedig â'r cyflenwad dŵr ac a allai achosi risg o legionella.
- Unrhyw offer neu system gyda'i gronfa ddŵr annibynnol ei hun ac a allai beri risg o legionella.
- Y brifysgol a'r holl golegau a'r gwasanaethau proffesiynol sy'n gweithredu neu'n rheoli offer/systemau a allai beri risg o legionella.
- Y Ganolfan Rheolaeth (NWWMDC).
- Staff, myfyrwyr, ymwelwyr a chontractwyr.

Nid yw'r polisi'n berthnasol i'r isod:

- Systemau dŵr môr.

3. POLISI'AU CYSYLLTIEDIG Â'R DDEDDFWRIAETH

Yn ychwanegol at y dyletswyddau cyffredinol dan y gyfraith, mae gan y brifysgol a'r colegau a'r gwasanaethau proffesiynol sy'n perthyn iddi, ymrwymiad penodol dan y Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) i asesu a rheoli'r risg dod i gysylltiad â sylweddau (yn cynnwys bacteria) a all niweidio iechyd pobl. Mae'r Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd yn rhoi'r dyletswyddau sylfaenol canlynol ar y brifysgol:

- Cynnal asesiad addas a digonol o'r risg dod i gysylltiad â sylweddau peryglus, gan gynnwys cyfryngau biolegol fel legionella.
- Atal dod i gysylltiad, neu os nad yw hyn yn bosibl newid proses neu ddull gydag un llai peryglus, trwy weithredu hierarchaeth rheoli risg.
- Cynnal, archwilio a phrofi mesurau rheoli.
- Rhoi gwybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant.

Mae cynllunio a rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r bacteria *Legionella pneumophila* yn cael eu llywodraethu ymhellach gan God Ymarfer a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, L8: The Control of Legionella Bacteria in Water Systems. Mae'r ddogfen hon yn rhoi manylion am drefniadau penodol y dylai pob cyflogwr a'r rhai sydd â chyfrifoldebau dros reoli adeiladau eu dilyn i atal a/neu reoli'r risg dod i gysylltiad â'r bacteria legionella.

Mae darparu dŵr yfed iach, sy'n dod o dan Reoliadau'r Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Lles), hefyd wedi ei gynnwys yn y ddogfen hon, gyda safonau perfformiad gofynnol wedi eu nodi.

4. DIFFINIADAU / TERMINOLEG:

Deiliad Dyletswydd: Y brifysgol yw'r Deiliad Dyletswydd cyfreithiol, ac eithrio'r Ganolfan Rheolaeth gan mai Bwrdd Cyfarwyddwyr Canolfan Rheolaeth a Datblygu Gogledd Cymru yw'r Deiliad Dyletswydd.

Unigolyn Cymwys: Penodi 'unigolyn cyfrifol' y brifysgol fel y'i diffinnir yn L8. Gall fod yn unigolyn neilltuol neu'n nifer o unigolion sydd â meysydd cyfrifoldeb ac arbenigedd penodol, yn cynnwys contractwyr neu ymgynghorwyr arbenigol.

5. DYLETSSWYDDAU'R BRIFYSGOL

Fel y prif Ddeiliad Dyletswydd, bydd y brifysgol yn gwneud y canlynol:

- a. Sicrhau bod system reoli addas ar waith i reoli'r risg o legionella, yn unol â deddfwriaeth a'r cod ymarfer a gymeradwywyd (ACOP) ¹ L8: The Control of Legionella Bacteria in Water Systems.
- b. Darparu dŵr yfed hygyrch i staff a myfyrwyr.

6. DYLETSSWYDDAU'R GWASANAETHAU EIDDO A CHAMPWS

Mae'r Gwasanaethau Eiddo a Champws yn gyfrifol am yr ystâd gyffredinol a'r holl seilwaith cyflenwi dŵr (hynny yw, pibellau sefydlog a chydannau parhaol eraill o'r system ddŵr) mewn adeiladau sy'n eiddo i'r brifysgol, gan gynnwys neuaddau preswyl. O'r herwydd, bydd y Gwasanaethau Eiddo a Champws yn gwneud y canlynol:

- a. Penodi unigolyn cymwys sydd ag awdurdod, cymhwysedd, sgiliau a gwybodaeth ddigonol i gymryd cyfrifoldeb o ddydd i ddydd am reoli unrhyw risgiau a nodir o legionella.
- b. Sicrhau bod contractwyr a staff a benodir i gynllunio, cynnal a chadw neu reoli systemau dŵr yn gymwys i wneud hynny ac yn cael gwybodaeth berthnasol.
- c. Sicrhau bod yr holl systemau dŵr a systemau aerdymheru perthnasol yn cael eu nodi, eu cofnodi ac y gwneir asesiad risg priodol.

¹ Cynhyrchwyd dan Reoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH)

- d. Sicrhau bod unrhyw brotocolau sy'n ofynnol gan asesiad risg a/neu'r unigolyn cymwys yn cael eu gweithredu.
- e. Sicrhau bod gan y landlordiaid y mae'r brifysgol yn eu defnyddio drefniadau rheoli addas a digonol ar gyfer rheoli legionella, neu, lle bo hynny'n berthnasol, bod trefniadau'r brifysgol mewn grym i sicrhau bod risg yn cael ei reoli.
- f. Rhannu canfyddiadau'r asesiadau risg â cholegau a gwasanaethau proffesiynol sy'n defnyddio'r adeiladau, fel sy'n briodol i'r risg.
- g. Sicrhau cyflenwadau digonol o ddŵr yfed iach ym mhob adeilad a ddefnyddir, gyda'r rhain wedi'u labelu'n unol â hynny.

Bydd y Gwasanaeth Eiddo a Champws yn gwneud y canlynol hefyd, trwy'r unigolyn cymwys²:

- h. Nodi ffynonellau posibl o legionella a pharatoi a/neu drefnu i asesiadau risg/cynlluniau ysgrifenedig Legionella (neu gamau gweithredu) i atal neu reoli risg.
- i. Sefydlu trefniadau rheoli fel y manylir yn yr asesiad risg Legionella a/neu'r cynllun ysgrifenedig.
- j. Cadarnhau bod trefniadau rheoli legionella yn briodol ar gyfer systemau dŵr mewn adeiladau ar brydles gan y brifysgol.
- k. Cadw cofnodion fel sy'n ofynnol gan asesiad risg Legionella a/neu'r cynllun ysgrifenedig ac unrhyw archwiliadau eraill, gwaith cynnal a chadw sy'n gysylltiedig â system ddŵr.
- l. Darparu gwybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant perthnasol (yn cynnwys hyfforddiant diweddar) i'r rhai sydd â chyfrifoldebau penodol e.e. staff cynnal a chadw.
- m. Sicrhau bod lluniadau/cynlluniau sgematig priodol o systemau dŵr yn cael eu cynnal.
- n. Cymeradwyo ymlaen llaw, holl addasiadau/newidiadau, gosodiadau newydd, neu ychwanegiadau i systemau dŵr, a sicrhau bod y rhain yn cydymffurfio â Safonau Prydeinig perthnasol ac L8.
- o. Comisiynu'n ffurfiol addasiadau/newidiadau, gosodiadau newydd neu ychwanegiadau gyda lluniadau perthnasol a data technegol yn cael eu derbyn yn ôl yr angen.
- p. Monitro ac adolygu effeithiolrwydd trefniadau rheoli ac sy'n cynnwys asesiadau risg/cynlluniau ysgrifenedig Legionella.
- q. Arwain a chynghori cydweithwyr, contractwyr a cholegau a gwasanaethau proffesiynol.
- r. Rhoi gwybod ar unwaith am yr holl achosion legionella a amheuir a chanlyniadau profion legionella positif cymwys i'r brifysgol (trwy Iechyd a Diogelwch, Llywodraethu a Chydymffurfio), a fydd wedyn yn hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch lle bo angen.

7. DYLETSWYDDAU COLEGAU A GWASANAETHAU PROFFESIYNOL³

Mae pob coleg/gwasanaeth proffesiynol yn gyfrifol am offer/systemau sy'n eiddo i goleg/gwasanaeth neu a weithredir ganddynt a phibellau cysylltiedig sydd ynghlwm wrth seilwaith y system ddŵr neu sydd â'i gronfa ddŵr annibynnol ei hun.

² Fel y'i diffinnir gan ACOP L8: The Control of Legionella Bacteria in Water Systems

³Gweler y daflen wybodaeth: Rheoli peryglon Legionella sy'n gysylltiedig ag offer sy'n eiddo i goleg/gwasanaeth

Mae'r cyfrifoldeb hwnnw'n cynnwys cydweithio a rhoi mesurau diogelwch a luniwyd gan y brifysgol, y Gwasanaethau Eiddo a Champws, yr unigolyn cymwys ac eraill i sicrhau iechyd a diogelwch lles staff, myfyrwyr, contractwyr ac ymwelwyr â'u coleg/gwasanaeth.

Gan hynny, bydd pob coleg a gwasanaeth proffesiynol lle bo hynny'n berthnasol yn gwneud y canlynol:

Cyffredinol:

- a. Nodi ac asesu'r risg dod i gysylltiad â'r bacteria legionella o offer sy'n eiddo i'r coleg/gwasanaeth neu a weithredir ganddynt neu beiriannau/pibellau perthnasol sydd ynghlwm i'r system ddŵr.
- b. Cadw at is-ddeddfau dŵr lleol a sicrhau nad oes unrhyw risg ôl-seiffonio dŵr o offer neu bibellau sydd wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â'r prif gyflenwad dŵr.
- c. Cyflwyno a monitro trefniadau i sicrhau bod eitemau perthnasol yn cael eu gweithredu, eu cynnal a'u cadw a'u glanhau yn ôl yr angen i atal y risg dod i gysylltiad â bacteria legionella.
- d. Rhoi hyfforddiant neu wybodaeth briodol i staff, myfyrwyr, gweithwyr tymor byr, academyddion sy'n ymweld ac eraill sydd o dan eu rheolaeth ar weithredu eitemau perthnasol yn ddiogel.
- e. Sicrhau bod contractwyr neu eraill a benodir i wneud gwaith ar eitemau perthnasol yn cael gwybodaeth briodol ynglŷn ag unrhyw risgiau a chamau rheoli cysylltiedig.
- f. Cael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan yr unigolyn cymwys cyn i unrhyw addasiadau, newidiadau neu ychwanegiadau gael eu gwneud i'r seilwaith dŵr.
- g. Sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw, fel bo'n briodol, e.e. cofnodion cynnal a chadw, profion ac arolygu.
- h. Rhoi gwybod am yr holl achosion legionella a amheuir i'r Pennaeth Iechyd a Diogelwch ar unwaith.

Ar gyfer systemau chwistrellu dŵr/systemau lleithiad/systemau sy'n gysylltiedig â seilwaith cyflenwad dŵr

- i. Hysbysu'r unigolyn cymwys yn y Gwasanaeth Eiddo a Champws cyn i systemau neu offer o'r fath gael eu prynu/gosod/comisiynu a'u datgomisiynu a phan fyddant yn cael eu tynnu/eu gwaredu.
- j. Sicrhau na ddefnyddir systemau nes bod asesiad risg/cynllun ysgrifenedig Legionella wedi ei baratoi.
- k. Gweithredu unrhyw reolaethau a amlinellir yn yr asesiad risg/cynllun ysgrifenedig Legionella, yn cynnwys cadw cofnod o'r holl offer chwistrellu dŵr a lleithiad sy'n eiddo i'r brifysgol gyda chofnodion o archwiliadau, profion a chynnal a chadw a gynhaliwyd ar y system/offer a gedwir.

8. DYLETSWYDDAU YCHWANEGOL I'R GWASANAETHAU MASNACHOL

Yn ychwanegol at y cyfrifoldebau a'r dyletswyddau a restrir uchod (Adran 7) bydd Gwasanaethau Masnachol hefyd yn sicrhau:

- a. Rhedeg dŵr ffo bob wythnos (neu ar gyfnodau y cytunwyd arnynt gan yr unigolyn cymwys) o gawodydd a thapiau mewn ystafelloedd gwag mewn neuaddau preswyl a ddefnyddir fel arall. Dylai'r asesiad risg gynghori'r amser sy'n ofynnol ar gyfer dŵr ffo neu ei gyfrifo ar wahân i sicrhau rhediad digonol o ddŵr i'w atal rhag sefyll.

- b. Hysbysu'r Gwasanaeth Eiddo a Champws o'r holl flocciau preswyl, coridorau neu adeiniau gwag a'r neuaddau preswyl cyfan sydd wedi cau, a gweithredu rheolaethau a gynghorir gan yr unigolyn cymwys.
- c. Rheoli contractau darparwyr neuaddau 3^{ydd} parti, gan gadarnhau gyda chymorth yr unigolyn cymwys bod risgiau legionella yn cael eu rheoli'n addas.
- d. Fflysio cawodydd nad ydynt yn cael eu defnyddio'n aml mewn cyfleusterau chwaraeon bob wythnos (neu ar gyfnodau y cytunwyd arnynt gan yr unigolyn cymwys).
- e. Bod systemau i ddyfrhau neu wlychu caeau chwaraeon perthnasol yn cael eu hasesu a'u cynnal yn briodol.
- f. Bod holl systemau gwneud iâ a lleithio yn cael asesiad risg a'u cynnal yn briodol.
- g. Cedwir cofnodion o'r holl weithgareddau cynnal a chadw, fflysio etc.

9. DYLETSWYDDAU STAFF A MYFYRWYR

Mae'n rhaid i bob aelod staff a phob myfyriwr wneud y canlynol:

- a. Peidio ag ymyrryd â systemau/cyfarpar a ddarparwyd at ddibenion diogelwch na'u camdefnyddio.
- b. Gweithredu offer yn unol ag arferion da ac unrhyw reolau diogelwch lleol.
- c. Rhoi gwybod yn syth am unrhyw bryderon i'w goruchwyliwr, rheolwr llinell, a chydlynnydd iechyd a diogelwch lleol, neu'n uniongyrchol i'r Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch.
- d. Ar gyfer myfyrrwyr preswyl (Neuaddau), rhoi gwybod i Swyddfa'r Neuaddau am absenoldebau o dros 7 diwrnod a chontractau sydd wedi eu terfynu'n gynnar.

10. DYLETSWYDDAU CONTRACTWYR

Mae'r holl gontractwyr a gyflogir i weithio ar adeiladwaith/seilwaith unrhyw adeilad yn y brifysgol yn gyfrifol am sicrhau eu bod nhw ac unrhyw isgontractwyr sy'n adrodd iddynt yn cyflawni eu gweithgareddau mewn ffordd sy'n cydymffurfio â gofynion y polisi hwn a'r ACOP: L8.

11. ADRODDIADAU AM ACHOSION O LEGIONELLA A AMHEUIR/PROFION LEGIONELLA POSITIF

Rhaid rhoi gwybod am yr holl achosion o legionella a amheuir a/neu brofion legionella positif i'r Pennaeth Iechyd a Diogelwch ar unwaith. Bydd y Pennaeth Iechyd a Diogelwch wedyn yn penderfynu pa gamau y mae'n rhaid eu cymryd fesul achos gan gysylltu â'r Gwasanaeth Eiddo a Champws, yr unigolyn cymwys ac eraill yn y sefydliad fel bo'r angen. Bydd y Pennaeth Iechyd a Diogelwch yn rhoi gwybod i'r Awdurdod Gweithrediad Iechyd a Diogelwch am bob achos o glefyd y Llengfilwyr a gadarnhawyd.

12. ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

Ni ddylai'r polisi hwn gael unrhyw effaith niweidiol ar y rhai sydd â nodwedd warchoddedig.

13. CANLLAWIAU PELLACH

- L8: The Control of Legionella Bacteria in Water Systems Approved Code of Practice.
- Taflen wybodaeth: Rheoli peryglon Legionella gydag offer sy'n eiddo i goleg/gwasanaeth

14. GWEITHDREFNAU ADOLYGU AC ARCHWILIO

Bydd Iechyd a Diogelwch a Llywodraethu a Chydymffurfio, yn cynnal archwiliadau cyffredinol ac achlysurol i sicrhau cydymffurfiad gyda'r polisi a deddfwriaeth yn gyffredinol.

Rhaid i'r colegau/gwasanaethau proffesiynol adolygu eu dulliau gweithredu eu hunain o bryd i'w gilydd, i sicrhau bod gofynion y polisi hwn yn cael eu gweithredu, a'u bod yn addas ac yn effeithiol.

Yn ogystal, gall Pwyllgor Iechyd a Diogelwch y brifysgol o bryd i'w gilydd adolygu effeithiolrwydd y polisi hwn.

Diwedd.